# BLWYDDYN CROESO: CRONFA ADDASU I'R TYWYDD AR GYFER ATYNIADAU TWRISTIAETH 2025-26

## Canllawiau

## 1. Cyflwyniad

Mae Croeso Cymru yn rhedeg cronfa sy'n cynnig grantiau cyfalaf bach yn 2025-26 i gefnogi atyniadau twristiaeth i fuddsoddi mewn mesurau i addasu i'r tywydd.

Mae adborth gan y sector twristiaeth yn dweud wrthym fod tywydd gwael yn ffactor allweddol sy'n cael effaith ar fasnachu. Mae ein Baromedr Busnes yn dangos mai'r tywydd, yn ôl busnesau, oedd y rheswm mwyaf cyffredin iddynt gael llai o ymwelwyr yn haf 2024, gyda 55% o fusnesau yn priodoli gostyngiad yn nifer eu hymwelwyr i'r tywydd (roedd hyn yn fwy o ffactor hyd y oed na phwysau costau byw ar ymwelwyr, ffactor a grybwyllwyd gan 42% o fusnesau).[1]

Mae data hinsawdd yn dangos y bu gaeafau'r DU rhwng 2009 a 2018 ar gyfartaledd 5% yn wlypach na 1981-2010 a 12% yn wlypach na 1961-1990. Bu hafau'r DU dros yr un cyfnod hefyd yn wlypach, o 11% a 13%[2]. Yn y tymor hwy, disgwylir i lawiad y gaeaf yng Nghymru gynyddu oddeutu 6% erbyn y 2050au o'i gymharu â'r cyfartaledd am y cyfnod 1981-2000, tra bod disgwyl i'r glaw yn yr haf ostwng oddeutu 15%, ond gall hyn fod yn cyd-fynd â dwysedd uwch o law pan fydd glaw yn dod[3].

Mae'r Strategaeth Addasu i'r Hinsawdd ar gyfer Cymru (Hydref 2024) yn nodi dull strategol Llywodraeth Cymru o addasu i'r hinsawdd. Nododd y Cynllun Gweithredu Addasu ar gyfer Busnesau ei bod yn bwysig amddiffyn busnesau rhag effeithiau'r hinsawdd ac ymrwymodd i ystyried dulliau ariannu i gefnogi mwy o wydnwch.

Mae strategaeth dwristiaeth Llywodraeth Cymru 'Croeso i Gymru: Blaenoriaethau ar gyfer yr Economi Ymwelwyr 2020-25' yn nodi bod cynyddu gwariant ymwelwyr a gwella dosbarthiad tymhorol drwy wella'r cynnig ar gyfer y flwyddyn gyfan yn fesurau llwyddiant allweddol. Mae adborth gan fusnesau yn dangos bod tywydd gwael yn ffactor sy'n rhwystro cyflawni'r amcanion hyn.

Dywedodd 88% o fusnesau a gymerodd rhan yn arolwg haf 2024 Cymdeithas Atyniadau Ymwelwyr Cymru (WAVA) y byddai cael cymorth ariannol Croeso Cymru ar gyfer addasu eu busnes i'r tywydd yn 'fuddiol iawn'. Mae Croeso Cymru yn ymateb i hyn drwy gyflwyno'r gronfa Addasu i'r Tywydd hon ar gyfer atyniadau ymwelwyr yn 2025-26.

---

[1] Baromedr Busnes Croeso Cymru, cam Haf 2024

[2] Prif ganfyddiadau Rhagamcanion Hinsawdd y DU – Awst 2022, Swyddfa Dywydd y DU

[3] Strategaeth Addasu i'r Hinsawdd ar gyfer Gymru 2024 t.3

## 2. Diben y Gronfa

Mae cyfnodau o dywydd gwael yn effeithio'n negyddol ar fusnesau atyniad twristiaeth mewn dwy brif ffordd: yn gyntaf, trwy atal y busnes rhag gweithredu yn ôl ei arfer (er enghraifft, os mae cyfleuster o dan dŵr) ac yn ail, trwy effeithio'n negyddol ar brofiad ymwelwyr a/neu beri iddynt beidio ag ymweld. Bydd y mesurau i addasu i'r tywydd a gefnogir gan y Gronfa hon yn anelu at liniaru'r effeithiau hyn.

Felly, bydd addasu i'r tywydd yn helpu i gefnogi **gwytnwch economaidd y busnes a'i allu i ymaddasu**, cryfhau **gwytnwch hinsawdd** y busnes, a helpu i alluogi'r busnes i gynnig ei groeso gorau posibl i ymwelwyr yn ystod **Blwyddyn Croeso** 2025.

Bydd mesurau cymwys i addasu i'r tywydd yn cynnwys:

- mesurau sy'n lliniaru effaith tywydd gwael ar y busnes
- mesurau sy'n lliniaru effaith tywydd gwael ar brofiad ymwelwyr

## 3. Pa gymorth sydd ar gael a'r amserlen i gyflawni'r gwaith

Mae'r Gronfa yn cynnig grantiau cyfalaf rhwng £5,000 a £20,000. Rhaid eu defnyddio cyn 31 Mawrth 2026. Ni fydd unrhyw gostau refeniw yn cael eu hystyried. Gall y grant gefnogi hyd at 75% o gostau'r mesurau addasu (neu hyd at £20,000 os yw hyn yn llai na 75% o'r costau).

Er enghraifft, gallai cais fod am £15,000 o grant tuag at gostau o £20,000 (75%) neu am £20,000 o grant tuag at gostau o £40,000 neu £50,000.

Rhaid i weddill y costau gael eu hariannu gan y busnes o'i gronfeydd ei hun neu o ffynonellau cyllid preifat. Ni all ymgeiswyr ddefnyddio unrhyw fath arall o grant neu gyllid gan unrhyw sefydliad sector cyhoeddus fel arian cyfatebol.

Rhaid cwblhau'r prosiect a'r gwariant yn llawn a hawlio'r grant erbyn 31 Mawrth 2026.

Bydd dyfarniadau grant yn cael eu gwneud o dan y drefn rheoli cymhorthdal Cymorth Ariannol Lleiaf (MFA) yn unol â'r Ddeddf Rheoli Cymhorthdal (2022). Bydd gofyn i ymgeiswyr gadarnhau, drwy ddatganiad wedi'i lofnodi, na fyddai unrhyw ddyfarniad a wneir o dan y gronfa hon yn golygu y bydd y busnes yn derbyn cyfanswm o fwy na £315,000 o gymorth MFA yn y flwyddyn gyfredol a'r ddwy flwyddyn ariannol flaenorol. Bydd ceisiadau'n cael eu gwrthod os nad yw'r busnes yn gallu gwneud y datganiad hwn.

## 4. Pwy all wneud cais i'r Gronfa hon?

Busnesau atyniadau twristiaeth yng Nghymru sydd:

- wedi'u hachredu fel atyniadau ymwelwyr o dan gynllun VAQAS (neu'n gymwys ac yn barod i geisio achrediad VAQAS fel amod grant)
- yn fentrau micro, bach neu ganolig (yn cyflogi hyd at 249 o weithwyr)

- wedi bod yn masnachu am o leiaf flwyddyn fel cwmni cyfyngedig, partneriaeth neu unig fasnachwr neu fel menter gymdeithasol
- yn derbyn ymwelwyr mewn lleoliad lle gall tywydd gwael effeithio ar berfformiad y busnes a phrofiad yr ymwelwyr

Dim ond un cais y caiff busnes atyniad ei wneud. Os yw un perchennog neu gyfarwyddwr yn berchen ar fwy nag un busnes atyniad, yna caiff gwneud uchafswm o ddau gais.

Nid ydym yn cefnogi'r defnydd annheg o gontractau dim oriau. Lle mae'r rhain yn cael eu defnyddio, ni ddylid eu gosod yn unochrog, a dylid cynnig opsiwn i weithwyr gael contract oriau gwarantedig. Ni ddylai busnesau nad ydynt yn gweithredu yn y modd hwn wneud cais i'r Gronfa hon.

## 5. Pa gostau sy'n gymwys ac yn anghymwys

Yr unig gostau sy’n gymwys yw costau mesurau addasu sy’n lliniaru effaith tywydd gwael ar berfformiad busnes ac ar brofiad ymwelwyr.

Gallai mesurau addasu cymwys gynnwys enghreifftiau megis (nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr):

- canopïau neu pergolas
- mannau eistedd dan orchudd
- llwybrau cerdded dan orchudd
- cysgodfannau ar gyfer ymwelwyr
- sglodion pren neu raean ar gyfer llwybrau
- arwyneb caled ar gyfer meysydd parcio

Mae Croeso Cymru yn derbyn y bydd y rhan fwyaf o fesurau i addasu i’r tywydd a gefnogir o dan y Gronfa hon yn rhai ymarferol ac yn ataliol eu natur. O fewn y cyfyngiadau y mae hyn yn anochel yn eu gosod, mae'n dal yn bwysig sicrhau y bydd y mesurau a gymerir hefyd yn ychwanegu at **apêl ymwelwyr** yr atyniad. Gall hyd yn oed prosiectau sylfaenol a rhai sy’n cyflawni diben syml gael elfen o apêl ymwelwyr, er enghraifft gallai man arwyneb caled ymgorffori'r gair 'Croeso' mewn ffordd weledol ddiddorol, neu gallai cysgodfannau ar gyfer ymwelwyr ymgorffori deunyddiau a chysylltiadau lleol.

Rydym yn arbennig o awyddus i gefnogi unrhyw fesurau addasu sy'n arbennig o drawiadol ac sydd â photensial gwirioneddol i fod o ddiddordeb i ymwelwyr neu i greu syndod iddynt ac i newid canfyddiadau o sut y gallai ymweld â'r atyniad mewn tywydd gwael fod.

Nid ydym am gefnogi mesurau sy'n edrych yn annymunol, sy’n gwneud argraff gwael ar ymwelwyr neu sy’n amharu ar apêl yr atyniad.

Mae'r mathau canlynol o gost yn anghymwys:

- Unrhyw fesurau lle mae ymrwymiad ariannol wedi cael ei wneud cyn i’r grant gael ei gynnig
- Costau refeniw, megis marchnata, gorbenion ac amser staff

- Ffioedd proffesiynol, er y caniateir ffioedd pensaer a ffioedd cynllunio os gellir cyfalafu'r rhain a’u bod yn angenrheidiol ar gyfer y prosiect
- Prynu stociau neu eitemau traul (fel ponchos neu ymbarelau)
- Unrhyw fesurau a fydd yn arwain at ddiswyddiadau

Mae telerau'r Gronfa hefyd yn eithrio unrhyw weithgareddau sy'n gysylltiedig â (1) dibenion gwleidyddol plaid; (2) hyrwyddo safbwyntiau seciwlar, crefyddol neu wleidyddol penodol; (3) gamblo; (4) pornograffi; (5) cynnig gwasanaethau rhywiol; (6) unrhyw fath o weithgareddau anghyfreithlon; neu (7) unrhyw fath o weithgaredd a allai yn ein barn ni ddwyn anfri ar Lywodraeth Cymru.

## 6. Proses Ymgeisio

Bydd y Gronfa yn gwneud un galwad am geisiadau, gan ddefynyddio proses ymgeisio un cam.  Mae'r amserlen ar gyfer y broses fel a ganlyn:

| Dyddiad | Cam y prosiect |
|---|---|
| Dydd Iau 24 Ebrill | Dyddiad agor ceisiadau |
| **Dydd Iau 22 Mai** | **Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau (1pm)** |
| Mehefin 2025 | Penderfyniadau Grant yn cael eu cyhoeddi |

Dyma’r dogfennau sy'n ofynnol ar gyfer y cam ymgeisio:

- Ffurflen gais wedi'i chwblhau
- Cyfrifon diwedd blwyddyn diweddaraf ar gyfer eich busnes
- Ffotograff dyddiedig o'r safle lle bydd y mesurau addasu yn cael eu gosod
- Copïau o ddyfynbrisiau gan y cyflenwyr yr ydych wedi eu dewis ar gyfer gwariant y prosiect
- Delweddau/dyluniadau o’ch mesurau arfaethedig (os ydynt ar gael)
- Tystiolaeth o drafodaethau cychwynnol gyda'r awdurdod cynllunio lleol (os yw’n berthnasol)

Bydd ein diwydrwydd dyladwy yn cynnwys gwirio bod y cyfrifon yn dangos bod y busnes yn masnachu'n broffidiol ac y bu’r fantolen yn bositif ar ddiwedd y flwyddyn ddiweddaraf.  Bydd cyfrifon sy'n dangos colledion neu fantolen negyddol fel arfer yn arwain at wrthod y cais, er y gallwn ystyried unrhyw wybodaeth liniarol rydych chi'n ei ddwyn i'n sylw.

Bydd ceisiadau ond yn cael eu sgorio os ydynt yn bodloni'r amodau cymhwysedd a nodir yn adran 4 uchod ('Pwy all wneud cais i'r Gronfa hon?').

Mae hon yn broses gystadleuol a dim ond y ceisiadau sy’n sgorio uchaf fydd yn cael eu hargymell i'w cymeradwyo.  Bydd y ceisiadau yn cael eu hasesu yn erbyn y meini prawf canlynol:

| | Maes sy'n cael ei sgorio | Sgôr (1-*5) | Pwysoliad |
|---|---|---|---|
| 1 | **Cyflawnadwyedd -** Rhaid i'r cais ddisgrifio'r prosiect yn glir a chynnig sicrwydd y gall y prosiect gael ei gyflawni'n llwyddiannus erbyn 31 Mawrth 2026 | | 5 |
| 2 | **Cryfhau'r Busnes** (Cryfder Economaidd a'r Gallu i Ymaddasu) - Dylai'r cais esbonio'n glir sut y bydd y mesurau addasu yn lleihau effaith tywydd gwael ar berfformiad y busnes | | 5 |
| 3 | **Gwytnwch Hinsawdd a Carbon Isel -** Dylai'r cais esbonio'n glir sut y bydd y mesurau arfaethedig yn gwneud y busnes yn fwy gwydn yn wyneb effeithiau hinsawdd sy'n digwydd nawr ac sy'n bosibl yn y dyfodol a sut y maent yn gyson â datblygiad y busnes tuag at ddulliau carbon is o weithio. | | 5 |
| 4 | **Profiad Ymwelwyr ac Apêl Ymwelwyr -** Rhaid i'r cais esbonio sut y bydd y mesurau i addasu i'r tywydd yn gwella profiad ymwelwyr. Bydd prosiectau sydd ag apêl cryf i ymwelwyr a photensial i wella canfyddiadau ymwelwyr o'r atyniad yn cael eu sgorio uchaf. | | 5 |

| **Sgôr** | **Disgrifiad** | **Yn gyllidadwy** |
|---|---|---|
| 5 | Eithriadol – Roedd yr ymateb yn gadarn, yn fanwl, wedi'i fynegi'n dda ym mhob agwedd faterol gan ddarparu tystiolaeth gref y byddai'r meini prawf yn cael eu bodloni, heb unrhyw wendidau na chynnwys sy'n peri pryder. | Ie |
| 3 | Ansawdd uchel – Roedd yr ymateb yn cyflwyno tystiolaeth y byddai'r meini prawf yn cael eu bodloni, yn dda mewn sawl agwedd ond gyda mân wendidau neu bryderon gyda'r cynnwys. | Ie |
| 1* | Gwan – Roedd yr ymateb yn darparu tystiolaeth gyfyngedig y byddai'r meini prawf yn cael eu bodloni. Roedd gwendidau yn y cynnwys. Roedd yr ymateb yn ddiffygiol o fanylion/neu eglurder sylweddol. | Na* |
| 0* | Annerbyniol – Nid oedd yr ymateb yn darparu tystiolaeth y byddai'r meini prawf yn cael eu bodloni; ac roedd yn gwbl anfoddhaol o ran cynnwys. Nodwyd gwendidau, problemau neu hepgoriadau mawr. Roedd yr ymateb yn wael a/neu yn anghyson. | Na |

*Os byddwch yn derbyn sgôr o 0 ar gyfer unrhyw faes, neu os bydd mwy nag un maes yn derbyn sgôr o 1, bydd eich cais yn cael ei wrthod.

## 7. Cymeradwyo a phenderfyniad

Bydd ymgeiswyr yn cael eu hysbysu o'r penderfyniad a'r rhesymau drosto. Mae hon yn gronfa ddewisol ac os bydd eich cais yn llwyddiannus, byddwn yn anfon Llythyr Cynnig Grant atoch. Nid oes proses apelio ar gyfer y gronfa hon. Ni ddylid 'dechrau'r gwaith' ar y prosiect, na gwneud unrhyw ymrwymiad ffurfiol, cyn y penderfyniad, gan y bydd hyn yn diddymu'r cais. Nid yw Llywodraeth Cymru yn gyfrifol nac yn atebol am unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â pharatoi'r cais.

## 8. Proses Hawliadau

Bydd taliadau grant yn cael eu gwneud mewn un rhandaliad ar ôl cwblhau'r prosiect a gymeradwywyd gennym.

Rhaid cyflwyno'r hawliad ar ôl cwblhau'r prosiect ac erbyn 31 Mawrth 2026 fan bellaf. Ni fyddwn yn ystyried talu unrhyw hawliadau a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwn.

Bydd hawliadau'n cael eu talu mewn ôl-daliad yn seiliedig ar **gostau rydych wedi eu talu**.

**Rhaid** cyflwyno hawliadau a dogfennau ategol yn electronig.

Y dogfennau sy'n ofynnol ar gyfer y cam hawlio fydd:

- Ffurflen hawlio wedi'i chwblhau
- Anfonebau am yr holl wariant a hawliwyd a phrawf bod yr anfonebau wedi cael eu talu
- Tystiolaeth ffotograffig wedi'i dyddio o'r mesurau addasu a gwblhawyd
- Copi o bolisi iaith Gymraeg yr atyniad

Rhaid i'r mesurau i addasu i'r tywydd aros yn eu lle yn yr atyniad am o leiaf 3 blynedd, fel arall bydd hawl gennym adennill y grant.

Ni fydd Croeso Cymru yn cynnal ymweliadau monitro yn y fan a'r lle ar gyfer y Gronfa hon ond mae'n bosib y byddwn yn edrych ar eich mesurau addasu fel rhan o'r ymweliadau gan ein tîm ansawdd sy'n rhan o'r cynllun VAQAS.

## 9. Caniatâd cynllunio

Os bydd angen cymeradwyaeth cynllunio neu gymeradwyaeth draenio trefol gynaliadwy ar eich prosiect, nid oes angen i'r rhain fod mewn lle ar adeg y cais, ond dylech ddarparu tystiolaeth bod trafodaethau cychwynnol wedi digwydd gyda'r awdurdod cynllunio lleol perthnasol er mwyn sicrhau y bydd y prosiect yn cael ei gyflawni erbyn mis Mawrth 2026.

## 10. Caffael

Disgwylir i chi sicrhau y gwerth gorau trwy ddefnyddio eich arferion caffael masnachol arferol, megis trwy gael dyfynbrisiau cystadleuol gan gyflenwyr.

Dylid cyflwyno copïau o'r dyfynbrisiau rydych chi wedi'u dewis gyda'ch cais i ddangos bod eich costau arfaethedig yn rhesymol.

Os ydych chi'n bwriadu defnyddio cwmni cysylltiedig i ymgymryd ag unrhyw elfen o'r gwaith prosiect, rhaid i chi ddatgan hyn i ni. Yn yr achos hwn, bydd gofyn i chi sicrhau bod cost y gwaith a wneir gan y cwmni cysylltiedig yn eithrio unrhyw elfen o elw ar gostau nwyddau neu ffioedd llafur ac yn y cam hawlio bydd angen i chi ddarparu tystiolaeth bod y costau hyn wedi'u gwirio gan Syrfëwr Meintiau annibynnol.

## 11. Gwerthuso

Fel amod grant, bydd yn ofynnol i fusnesau sy'n derbyn cymorth gymryd rhan mewn ymchwil ddilynol. Bydd yr ymchwil hon yn ceisio deall effaith ganfyddedig y mesurau addasu a gyflwynwyd o dan y Gronfa hon ar berfformiad busnesau ac ar brofiad ymwelwyr. Rydym yn disgwyl dosbarthu holiadur gwerthuso yn 2026-27.

## 12. Rheoli Cymhorthdal y DU

Bydd dyfarniadau grant yn cael eu gwneud o dan y drefn rheoli cymhorthdal Cymorth Ariannol Lleiaf (MFA) yn unol â'r Ddeddf Rheoli Cymhorthdal (2022). Gweler adran 3 uchod.

## 13. Y Gymraeg

Y gofyniad iaith Gymraeg sy'n perthyn i'r Gronfa hon yw bod yn rhaid i'r atyniad fod â Pholisi Iaith Gymraeg sy'n manylu ar eich ymrwymiadau i ddarparu deunyddiau, dehongli, cyfleoedd cyflogaeth, hysbysebion a gwasanaethau yn gwbl ddwyieithog. Rhaid darparu copi o'r polisi hwn yn y cam hawlio er mwyn i'ch hawliad gael ei dalu.

Mae swyddfa Comisiynydd y Gymraeg wedi cyhoeddi canllawiau a allai fod o gymorth ar gyfer datblygu neu gryfhau polisi iaith Gymraeg eich sefydliad, ac i geisio cydnabyddiaeth Cynnig Cymraeg ar gyfer polisïau effeithiol. Am ragor o wybodaeth, gweler Canllawiau.

## 14. Cyhoeddusrwydd

Bydd angen i chi gydnabod cefnogaeth ariannol Llywodraeth Cymru ar yr holl ddeunydd cyhoeddusrwydd, datganiadau i'r wasg a deunydd marchnata sy'n berthnasol i'r prosiect . Rhaid i gydnabyddiaeth o'r fath fod ar ffurf a gymeradwywyd gennym ymlaen llaw a rhaid iddo gydymffurfio â chanllawiau brandio Llywodraeth Cymru. Bydd yr holl ofynion yn cael eu hamlinellu'n glir yn y Llythyr Cynnig Grant.

## 16. Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU – Datganiad Preifatrwydd

Llywodraeth Cymru yw'r Rheolydd Data ar gyfer unrhyw wybodaeth rydych chi'n ei darparu. Gellir rhannu'r wybodaeth a gesglir gydag asiantaethau atal twyll a fydd yn ei defnyddio i atal twyll a gwyngalchu arian ac i gadarnhau pwy ydych. Cewch wybod rhagor isod am sut y bydd eich gwybodaeth yn cael ei defnyddio gennym a chan yr asiantaethau atal twyll hyn.

Bydd y wybodaeth a ddarperwch yn cael ei defnyddio gan Lywodraeth Cymru i brosesu'r cais hwn. Gellir rhannu'r wybodaeth a ddarperir yma ac yn y gwaith papur cysylltiedig yn ddiogel ac yn gyfrinachol â sefydliadau cyllid cyhoeddus eraill, ac â chynghorwyr technegol allanol (fel y bo'n briodol) gan gynnwys unrhyw gontractwr a gyflogwyd gennym i gynnal ymchwil ddilynol. Mae'n angenrheidiol i ni gasglu'r wybodaeth hon er mwyn i ni gydymffurfio â'n rhwymedigaethau cyfreithiol o dan y cynllun. Os na ddarperwch yr holl wybodaeth ofynnol, gallai olygu na fyddwn yn gallu asesu'r cais yn llawn.

Bydd y wybodaeth a gesglir ar gael i dimau gwasanaeth cymorth Llywodraeth Cymru a'i gweinyddwyr technegol system sy'n cefnogi'r system TG. Ni fydd y gweinyddwyr technegol yn defnyddio eich manylion mewn unrhyw ffordd.

Mae'r cyfnod cadw ar gyfer y data sydd gennym yn cael ei esbonio yn yr hysbysiad preifatrwydd atodedig, ynghyd â'ch hawliau o dan Reoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU.

## 17. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae amcanion y Gronfa hon yn cyd-fynd ag egwyddorion Cenedlaethau'r Dyfodol, yn enwedig nodau Cymru wydn a Chymru ffyniannus a'r ffordd ataliol o weithio.

## 18 Disgwyliadau Llywodraeth Cymru o dderbynwyr grantiau

Mae Llywodraeth Cymru eisiau gweithio gyda sefydliadau sy'n falch o'u henw da, o'r hyn maen nhw'n ei gyflawni, ac o'u hymddygiad. Mae'r canllawiau a atodir yma wedi cael eu cynllunio i egluro a thynnu sylw at y mathau o ymddygiad, diwylliant a gwerthoedd y mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl eu gweld yn cael eu rhoi ar waith gan gyrff sy'n derbyn grantiau:

*Disgwyliadau Llywodraeth Cymru o dderbynwyr grant [HTML] | LLYWODRAETH. CYMRU*

## 19. Rhagor o wybodaeth

Os oes gennych unrhyw ymholiadau am y Gronfa hon, cysylltwch â:
CronfaAddasuIrTywydd@llyw.cymru

**SYLWCH MAI'R DYDDIAD CAU AR GYFER CEISIADAU I'R GRONFA HON YW 1pm AR DDYDD IAU, 22 MAI 2025**